# Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

**Mae ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn amlinellu'r camau penodol sydd eu hangen i weithredu'r amcanion a'r polisïau ehangach a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'n nodi'r ymyraethau fydd ein hawdurdodau lleol yn eu datblygu dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n cynnwys ein blaenoriaethau dros amser, gan ystyried costau, effeithiau a chyfraniadau tebygol i'n hamcanion rhanbarthol. Nid yw'n cynnwys cynlluniau 'cefnffyrdd' strategol, na phrosiectau rheilffyrdd, a fyddai'n cael eu darparu gan gyrff eraill fel Llywodraeth Cymru a Network Rail.**

Er bod ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i Gynllun Monitro a Gwerthuso ategol yn amlinellu'r hyn yr ydym am ei gyflawni, gan osod targedau priodol yn unol â'n hamcanion, mae ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r deilliannau yr ydym eu heisiau (gan ystyried materion fel fforddiadwyedd, cyflawniad a rheolaeth) a phryd (gan gynnwys amserlenni).

Mae ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi rhestr flaenoriaeth o'r cynlluniau y bydd ein hawdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn eu datblygu i helpu i gyflawni ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a oruchwylir gan Uchelgais Gogledd Cymru fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â phartneriaid eraill fel y bo'n briodol. Drwy gydweithio, rydym wedi ystyried cynlluniau a'u cyfraniad i'n hamcanion, a materion gan gynnwys effeithiau tebygol ar yr amgylchedd, cynllunio defnydd tir, derbynioldeb a chyflawniad rhanddeiliaid.

Mae hyn er enghraifft wedi ein helpu i feddwl sut y gallai cynllun helpu i gyfrannu at newid dulliau teithio, datgarboneiddio, a pha gostau a buddion allai ei gael. Drwy ddilyn y dull hwn, rydym wedi nodi ein blaenoriaethau dros y blynyddoedd nesaf, yn y tymor byr, canolig a thymor hwy.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth a ddarperir gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu'n seiliedig ar y cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn bwysig, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer proses moderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafnidiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Nod hyn yw rhoi mwy o allu i ni wneud penderfyniadau o ran sut mae arian grant trafnidiaeth lleol yn cael ei wario. Drwy ddyrannu cyllid i drafnidiaeth ranbarthol, bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar ein hawdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ffynonellau cyllid ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a'r DU i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ledled gogledd Cymru.

